Cyllid & Tollau EF

# Rhyddhad amaethyddol

Atodlen IHT414

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Dim ond os ydych yn didynnu rhyddhad amaethyddol ar ffurflen IHT400 y dylech lenwi'r ffurflen hon. Defnyddiwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob daliant amaethyddol ac anfon cynllun yn dangos y lleoliad a maint y daliant.

Ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026, mae rhyddhad ar gyfradd o 100% ar werth cyfunol eiddo amaethyddol cymhwysol a/neu fusnes cymhwysol wedi'i gyfyngu i £2.5 miliwn. Bydd y gwerth hwn yn cynnwys unrhyw roddion o eiddo cymhwysol a wnaed ar neu ar ôl 30 Hydref 2024 a chyn pen 7 mlynedd i'r farwolaeth, ac eiddo arall (gan gynnwys eiddo mewn ymddiriedolaeth) sy'n cael ei drin fel rhan o'r ystâd. Pan fo cyfanswm gwerth yr eiddo cymhwysol yn fwy na £2.5 miliwn, bydd y swm sydd dros ben yn gymwys ar gyfer rhyddhad ar gyfradd o 50%.

Gellir trosglwyddo'r lwfans o £2.5 miliwn sydd heb ei ddefnyddio gan briod neu bartner sifil a fu farw i ystâd y person a fu farw, ar yr amod bod yr hawliad yn cael ei wneud o fewn 4 blynedd i farwolaeth y goroeswr neu o fewn 6 mis cyntaf y cynrychiolydd yn ei rôl.

Yn ogystal, os nad yw marchnad yn cael ei chyfrif fel un 'rhestredig' at ddibenion CThEF (megis AIM), dim ond ar gyfradd o 50% y gall cyfranddaliadau a ddelir mewn cwmnïau sydd wedi'u rhestru ar y marchnadoedd hyn gymhwyso erbyn hyn.

**Enw'r ymadawedig**

| |
|---|
| |

**Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant, os yw'n hysbys**

| |
|---|
| |

## Help

Darllenwch y nodiadau arweiniol ar gyfer ffurflen IHT414 yn Nodiadau IHT400, cyn llenwi'r ffurflen hon. I gael rhagor o wybodaeth neu help, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900
  – os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900

## Eiddo amaethyddol

**1** **Rhowch gyfeiriad a disgrifiad llawn o'r daliant amaethyddol yr ydych yn didynnu rhyddhad amaethyddol ar eu cyfer.**

Mae'n rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen IHT405, 'Tai, tir ac adeiladau a buddiannau mewn tir' i roi manylion yr eiddo dan sylw

**Cyfeiriad**

| |
|---|
| |

**Disgrifiad**

| |
|---|
| |

**2** **Pryd a sut y gwnaeth yr ymadawedig gaffael y daliant?**

Er enghraifft, efallai y bydd yr ymadawedig wedi etifeddu'r eiddo, wedi'i gael yn rhodd, neu wedi'i brynu ei hun

| |
|---|
| |

## Eiddo amaethyddol parhad

3 **A oedd y daliant, neu unrhyw ran ohono, yn destun contract rhwymol am werthiant ar ddyddiad y trosglwyddiad?** Rhowch 'X' yn y blwch

Na ☐ Ewch i flwch 4

Iawn ☐ Rhowch fanylion llawn y contract a nodi'n glir beth oedd rhan yr eiddo a gafodd ei werthu ar y cynllun rydych yn ei ddarparu

4 **A oes unrhyw ganiatâd cynllunio sydd heb ei benderfynu ar y daliant nad yw wedi'i roi ar waith?**

Na ☐ Ewch i flwch 5

Iawn ☐ Rhowch fanylion bras y caniatâd cynllunio

## Defnydd o dir amaethyddol

Darllenwch y nodiadau arweiniol ar gyfer y ffurflen hon yn Nodiadau IHT400 i gael gwybodaeth am faint o fanylion sydd eu hangen yn yr adran hon.

5 **Rhowch ddisgrifiad manwl o'r gweithgareddau ffermio dydd i ddydd a gynhaliwyd ar y tir yn ystod y saith mlynedd cyn dyddiad y trosglwyddiad (neu gyfnod y berchnogaeth, os yw'n llai na saith mlynedd)**

6 **Rhowch fanylion am raddau yr oedd yr ymadawedig yn ymwneud â'r gweithgareddau y disgrifir ym mlwch 5 yn ystod y ddwy flynedd cyn dyddiad y trosglwyddiad.** Er enghraifft, pa dasgau gwirioneddol y gwnaeth yr ymadawedig eu cynnal a faint o oriau y gwnaeth yr ymadawedig dreulio ar y tasgau hyn bob wythnos

## Tir ar osod

7 **A oedd y tir yn destun unrhyw brydles, trwydded neu denantiaeth yn union cyn y trosglwyddiad?**
Rhowch 'X' yn y blwch

Na ☐ Ewch i flwch 11

Iawn ☐ Ewch i flwch 8

8 **I bwy y rhoddwyd yr eiddo ar osod?**
Teitl - nodwch MR, MRS, MISS, MS neu deitl arall

**Enw**

**Perthynas i'r ymadawedig, os oes unrhyw berthynas o gwbl**

9 **Pryd ddechreuodd y cyfnod o'i roi ar osod?** DD MM BBBB

10 **Am faint oedd y cyfnod o'i roi ar osod yn para'n wreiddiol, neu beth oedd hyd y tymor?**

11 **A ydych chi'n didynnu rhyddhad amaethyddol ar gyfradd o 50% neu 100%?**

50% ☐ 100% ☐ 100% a 50% ☐

Mae Rhyddhad Amaethyddol 100% ar gael hyd at £2.5m ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026 os yw'r canlynol yn wir:

- roedd gan y perchennog feddiant gwag o'r tir (er enghraifft, roedden nhw'n ei ffermio eu hunain neu roedd yn cael ei ffermio o dan drwydded bori tymor byr)
- roddwyd y tir ar denantiaeth yn dechrau ar ôl 31 Awst 1995
- mewn rhai amgylchiadau, os cafodd y tir ei osod ar denantiaeth a ddechreuodd cyn 10 Mawrth 1981 (gweler tudalen 39 o'r Nodiadau IHT400)

Ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026, os yw gwerth cyfunol eiddo amaethyddol a/neu fusnes cymwys yn fwy na'r lwfans rhyddhad 100% o £2.5m, bydd unrhyw werth uwchlaw'r terfyn hwn yn cael rhyddhad o 50%. Mae'n rhaid dosrannu'r lwfans rhyddhad o 100% ar draws yr holl eiddo cymwys yn yr ystâd. Am gyfraddau a rhyddhadau, gweler y Nodiadau IHT400.

Ym mhob amgylchiad arall, cyfradd y Rhyddhad Amaethyddol yw 50%.

Anfonwch gopi o'r cytundeb tenantiaeth, os oes un.

## Ffermdai a bythynnod

Dim ond os ydych yn didynnu rhyddhad amaethyddol ar ffermdai a bythynnod y dylech lenwi'r adran hon. Dim ond ar gyfer ffermdai a bythynnod sy'n cael eu meddiannu at ddibenion amaethyddiaeth y mae rhyddhad amaethyddol ar gael. Mae p'un a fydd pob eiddo'n gymhwysol i gael rhyddhad yn dibynnu ar bwy oedd yn byw yno ac a yw'n cael ei ystyried 'o gymeriad priodol' i'r eiddo.

Atebwch y cwestiynau canlynol ar gyfer pob eiddo. Parhewch ar ddalen ychwanegol os oes angen.

### Eiddo 1

12 **Cyfeiriad a/neu ddisgrifiad o'r eiddo, er enghraifft, 'Ffermdy yn Fferm y Winllan, Lôn Gwellt, Caerfan'**

13 **A oedd yr eiddo heb gael ei feddiannu (hyd yn oed dros dro) yn ystod y saith mlynedd cyn dyddiad y trosglwyddiad?**

Na ☐ Ewch i flwch 14

Iawn ☐ Rhowch y dyddiad(au) pan oedd yr eiddo'n wag

### Eiddo 2

**Cyfeiriad a/neu ddisgrifiad o'r eiddo, er enghraifft, 'Ffermdy yn Fferm y Winllan, Lôn Gwellt, Caerfan'**

**A oedd yr eiddo heb gael ei feddiannu (hyd yn oed dros dro) yn ystod y saith mlynedd cyn dyddiad y trosglwyddiad?**

Na ☐ Ewch i flwch 14

Iawn ☐ Rhowch y dyddiad(au) pan oedd yr eiddo'n wag

## Ffermdai a bythynnod parhad

### Eiddo 1 parhad

14 **A oedd yr ymadawedig wedi byw yn yr eiddo?**

Na ☐ Ewch i flwch 16

Iawn ☐ Rhowch fanylion y person(au) a oedd yn byw yn yr eiddo, y dyddiad(au) pan oeddent wedi byw yno ac esbonio'r graddau yr oeddent yn ymwneud â'r gweithgareddau ffermio y disgrifir ym mlwch 5

15 **Os oedd yr eiddo wedi'i roi ar osod, disgrifiwch y math o denantiaeth (er enghraifft, tenantiaeth amaethyddol, byrddaliad sicr) a rhoi gwybod am faint o rent oedd wedi'i dalu**

### Eiddo 2 parhad

**A oedd yr ymadawedig wedi byw yn yr eiddo?**

Na ☐ Ewch i flwch 16

Iawn ☐ Rhowch fanylion y person(au) a oedd yn byw yn yr eiddo, y dyddiad(au) pan oeddent wedi byw yno ac esbonio'r graddau yr oeddent yn ymwneud â'r gweithgareddau ffermio y disgrifir ym mlwch 5

**Os oedd yr eiddo wedi'i roi ar osod, disgrifiwch y math o denantiaeth (er enghraifft, tenantiaeth amaethyddol, byrddaliad sicr) a rhoi gwybod am faint o rent oedd wedi'i dalu**

## Adeiladau fferm

16 **Rhowch ddisgrifiad llawn o unrhyw adeiladau fferm y didynnir rhyddhad amaethyddol ohonynt gan nodi pwy oedd yn eu defnyddio ac at ba ddiben. Peidiwch â defnyddio ymadroddion fel 'storio cyffredinol' neu 'at ddibenion amaethyddol' gan nad yw'r rhain yn ddigonol.**

## Rhyddhad amaethyddol a throsglwyddiadau oes

Os ydych yn didynnu rhyddhad amaethyddol ar rodd, mae amodau ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni cyn bod y rhyddhad yn ddyledus.

Atebwch y cwestiynau ychwanegol hyn i'n helpu i benderfynu a yw'r rhyddhad yn ddyledus.

Mae 'cyfnod perthnasol' yn golygu'r cyfnod rhwng dyddiad y rhodd a dyddiad marwolaeth yr ymadawedig (neu farwolaeth y sawl a gafodd y rhodd, os oeddent wedi marw gyntaf).

17 **A oedd y daliant yn eiddo amaethyddol yn union cyn diwedd y cyfnod perthnasol?**

Na ☐

Iawn ☐

18 **A oedd y person a gafodd y rhodd yn berchen ar y daliant drwy gydol y cyfnod perthnasol?**

Na ☐

Iawn ☐

19 **A oedd y daliant yn cael ei feddiannu (gan y sawl a gafodd y rhodd neu gan rywun arall) at ddibenion amaethyddol drwy gydol y cyfnod perthnasol?**

Na ☐

Iawn ☐

20 **A oedd y daliant yn destun contract rhwymol am werthiant yn union cyn diwedd y cyfnod perthnasol?**

Na ☐

Iawn ☐

## Unrhyw wybodaeth arall

Defnyddiwch y blwch hwn os oes gennych ragor o fanylion yr hoffech eu rhoi i ni neu os nad oes gennych ddigon o le yn unrhyw un o'r blychau ar dudalennau 1 i 4.